Sachareias ac Elisabeth (Addewid am fab) Luc 1: 5-25, 39-45, 57-80

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Luc 1: 5-25, 39-45, 57-80		
1	Pan oedd Herod yn frenin ar Jwdea, roedd dyn o'r enw Sachareias yn offeiriad. Enw ei wraig oedd Elisabeth. Roedd y ddau ohonyn nhw yn bobl dda yng ngolwg Duw, ac yn gwneud yn union fel roedd e'n dweud. Ond doedd Elisabeth ddim yn gallu cael plant, ac roedd y ddau ohonyn nhw'n eithaf hen.		
2	Roedden nhw'n credu eu bod nhw'n rhy hen i gael plant.		
3	Un tro, pan oedd y teulu offeiriadol oedd Sachareias yn perthyn iddo yn gwasanaethu yn y deml, roedd Sachareias yno gyda nhw yn gwneud ei waith fel offeiriad.		

4	A fe oedd yr un gafodd ei ddewis, trwy daflu coelbren, i losgi arogldarth wrth fynd i mewn i'r cysegr. (Taflu coelbren oedd y ffordd draddodiadol roedd yr offeiriaid yn ei defnyddio i wneud y dewis.)	
5		
6	Pan oedd yn amser i'r arogldarth gael ei losgi, roedd yr holl bobl oedd wedi dod yno i addoli yn gweddïo y tu allan.	
7	Roedd Sachareias wrthi'n llosgi'r arogldarth, ac yn sydyn gwelodd un o angylion yr Arglwydd o'i flaen yn sefyll ar yr ochr dde i'r allor. Roedd Sachareias wedi dychryn am ei fywyd.	
8	Ond dyma'r angel yn dweud wrtho: “Paid bod ofn, Sachareias; mae Duw wedi clywed dy weddi. Mae Elisabeth dy wraig yn mynd i gael plentyn — dy fab di! Ioan ydy'r enw rwyt i'w roi iddo, a bydd yn dy wneud di'n hapus iawn. Bydd e'n was pwysig iawn i'r Arglwydd Dduw. Fydd e ddim yn yfed gwin nac unrhyw ddiod feddwol, ond bydd wedi cael ei lenwi â'r Ysbryd Glân hyd yn oed cyn iddo gael ei eni."	

9	"Bydd yn troi llawer iawn o bobl Israel yn ôl at yr Arglwydd eu Duw. Gyda'r un ysbryd a nerth a oedd gan y proffwyd Elias bydd yn mynd allan i gyhoeddi fod yr Arglwydd yn dod, ac yn paratoi'r bobl ar ei gyfer. "	
10	“Sut alla i gredu'r fath beth?” meddai Sachareias, “Dw i'n hen ddyn ac mae ngwraig i mewn oed hefyd.” Dyma'r angel yn ateb, “Gabriel ydw i. Fi ydy'r angel sy'n sefyll o flaen Duw i'w wasanaethu. Fe sydd wedi fy anfon i siarad â ti a dweud y newyddion da yma wrthot ti. Gan dy fod ti wedi gwrthod credu beth dw i'n ei ddweud, byddi'n methu siarad nes bydd y plentyn wedi ei eni. Ond daw'r cwbl dw i'n ei ddweud yn wir yn amser Duw.”	
11	Tra roedd hyn i gyd yn digwydd, roedd y bobl yn disgwyl i Sachareias ddod allan o'r deml. Roedden nhw'n methu deall pam roedd e mor hir.	
12	Yna pan ddaeth allan, roedd yn methu siarad â nhw. A dyma nhw'n sylweddoli ei fod wedi gweld rhywbeth rhyfeddol yn y deml.	

13	Roedd yn ceisio esbonio iddyn nhw drwy wneud arwyddion, ond yn methu siarad. Ar ôl i'r cyfnod pan oedd Sachareias yn gwasanaethu yn y deml ddod i ben, aeth adre.	
14	Yn fuan wedyn dyma ei wraig Elisabeth yn darganfod ei bod hi'n disgwyl babi, a dyma hi'n cadw o'r golwg am bum mis.	
15	“Yr Arglwydd Dduw sydd wedi gwneud hyn i mi!” meddai. “Mae wedi bod mor garedig.”	
16	Pan ddaeth yr amser i fabi Elisabeth gael ei eni, bachgen bach gafodd hi. Clywodd ei chymdogion a'i pherthnasau y newyddion, ac roedden nhw i gyd yn hapus hefyd fod yr Arglwydd wedi bod mor garedig wrthi hi.	
17	Wythnos ar ôl i'r babi gael ei eni roedd pawb wedi dod i seremoni enwaedu y bachgen, ac yn cymryd yn ganiataol mai Sachareias fyddai'n cael ei alw, yr un fath â'i dad. Ond dyma Elisabeth yn dweud yn glir, “Na! Ioan fydd ei enw.”	

18	“Beth?” medden nhw, “Does neb yn y teulu gyda'r enw yna.” Felly dyma nhw'n gwneud arwyddion i ofyn i Sachareias beth oedd e eisiau galw ei fab. Gofynnodd am lechen i ysgrifennu arni, ac er syndod i bawb, ysgrifennodd y geiriau “Ioan ydy ei enw.”	
19	Yr eiliad honno cafodd ei allu i siarad yn ôl, a dechreuodd foli Duw.	
20	Roedd ei gymdogion i gyd wedi eu syfrdanu, ac roedd pawb drwy ardal bryniau Jwdea yn siarad am beth oedd wedi digwydd.	
21	Roedd pawb yn gofyn, “Beth fydd hanes y plentyn yma?” Roedd hi'n amlwg i bawb fod llaw Duw arno.	

22	Dyma Sachareias yn cael ei lenwi â'r Ysbryd Glân, ac yn proffwydo fel hyn: “Molwch yr Arglwydd — Duw Israel! Mae wedi dod i ollwng ei bobl yn rhydd. Mae wedi anfon un cryf i'n hachub ni — un yn perthyn i deulu y Brenin Dafydd. Dyma'n union addawodd ymhell yn ôl, drwy ei broffwydi sanctaidd: Bydd yn ein hachub ni rhag ein gelynion . Mae wedi trugarhau, fel yr addawodd i'n cyndeidiau, ac wedi cofio'r addewid a wnaeth pan aeth ar ei lw i Abraham: i'n hachub ni o afael ein gelynion, i ni allu ei wasanaethu heb ofni neb na dim, a byw yn bobl sanctaidd a chyfiawn tra byddwn fyw.	
23	A thithau, fy mab bach, byddi di'n cael dy alw yn broffwyd i'r Duw Goruchaf; oherwydd byddi'n mynd o flaen yr Arglwydd i baratoi'r ffordd ar ei gyfer. Byddi'n dangos i'w bobl sut mae cael eu hachub trwy i'w pechodau gael eu maddau. Oherwydd mae Duw yn dirion ac yn drugarog, ac mae ei oleuni ar fin gwawrio arnon ni o'r nefoedd. Bydd yn disgleirio ar y rhai sy'n byw yn y tywyllwch gyda chysgod marwolaeth drostyn nhw, ac yn ein harwain ar hyd llwybr heddwch.”	
24	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	

25

Lumo
PROJECT
GOSPEL
MATTHEW
GOSPEL
MARK
GOSPEL
LUKE
GOSPEL
JOHN